

# Parthau Parcio



## Cyffredinol

### Beth yw Parth Parcio?

Mae Parth Parcio yn ardal lle bydd yr holl barcio'n cael ei reoli gan ddefnyddio dau fath gwahanol o fan parcio yn bennaf: [mannau parcio preswyl](#) a [mannau aros cyfyngedig](#).

Ni fydd unrhyw barcio heb reolaeth, rhwng 8am a 6pm.

Ni wneir unrhyw newidiadau i'r manau anabl presennol fel rhan o'r broses hon

### Beth yw'r mathau o gilfachau parcio?

#### Mannau Parcio Preswylwyr

- Ar gyfer deiliaid trwyddedau preswyl yn unig.
- Dim terfyn amser ar hyd yr arhosiad.
- Oriau gweithredol: 8am i 10pm, bob dydd o'r wythnos.

#### Cilfachau Parcio Aros Cyfyngedig

- Gallwch aros am uchafswm o 2 awr oni bai bod gennych drwydded parcio i breswylwyr.
- Oriau gweithredol: 8am i 6pm, bob dydd o'r wythnos.
- Gall preswlydd sydd â thrwydded barcio mewn cilfach Aros Gyfyngedig cyhyd ag y mynnant.

#### Mannau Parcio Talu ac Aros

- Cilfachau lle rydych yn talu am barcio a gallwch aros am gyfnodau hirach.

## Trwyddedau preswylwyr

### Rwy'n breswlydd... Faint fydd cost trwydded?

Mae'r drwydded gyntaf ar gyfer car cyntaf yr aelwyd yn costio £7.50.

Mae'r ail drwydded ar gyfer ail gar yr aelwyd yn costio £30.

I gael mwy o wybodaeth am drwyddedau parcio, ewch i [Parcio i breswylwyr \(caerdydd.gov.uk\)](http://Parcio i breswylwyr (caerdydd.gov.uk))

### Rwy'n breswlydd gyda thrwydded... Ble alla i barcio?

Gall preswlydd sydd â thrwydded barcio naill ai mewn:

- Man parcio i breswylwyr unrhyw le o fewn y parth cywir (24 awr, dim terfyn amser)
- Man aros cyfyngedig unrhyw le o fewn y parth cywir (24 awr, dim terfyn amser)
- Mannau Parcio Talu ac Aros o fewn y parth cywir (24 awr, dim terfyn amser)

Gallwch barcio lle mae'r arwyddion yn dweud y gallwch.

\*dim ond preswylwyr sydd â thrwydded all barcio 24 awr y dydd yn y manau uchod. Mae cyfyngiadau'n berthnasol i bawb arall fel y'u nodir ar yr arwyddion.

## Arall

### Trwyddedau Busnes a Chymunedol

Caiff busnesau sicrhau hyd at ddwy drwydded i barcio am gyfnod amhenodol yn y manau aros cyfyngedig yn eu parth hwy. Ni chodir tâl am y trwyddedau hyn i ddechrau, ond maes o law codir tâl ar y rhain yn ôl faint o lygredd y mae'r cerbyd yn ei achosi - [Cardiff.gov.uk/parking](http://Cardiff.gov.uk/parking).

Caiff eglwysi ac eiddo arall sydd wedi'u heithrio rhag talu cyfraddau busnes sicrhau hyd at ddwy drwydded gymunedol i barcio am gyfnod amhenodol yn y manau aros cyfyngedig yn eu parth cywir. Er na fydd y rhain yn gofyn am dâl yn gychwynnol, codir tâl o £10 y flwyddyn ar y rhain maes o law.

Bydd deiliaid trwyddedau yn cael gwybod pan fydd taliadau'n cael eu gweithredu.

# Map Parth Parcio

